
*Rhif:* ***44*** *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:* **Alltraeth gorllewinol- dŵr dwfn iawn**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020
Sources: Ordnance Survey, Seazone, Pembrokeshire Coast National Park Authority, Natural Resources Wales

**ACM44:Alltraeth y Gorllewin – dyfroedd dwfn iawn**

| Disgrifiad Cryno |
|---|
| Lleolir y môr agored alltraeth hwn yn y rhan mwyaf gorllewinol o'r ardal astudiaeth gan redeg i fyny at ffiniau tiriogaethol. Mae'r dŵr dwfn iawn ar wely môr tywod graeanog ac fe'i defnyddir gan longau fel dŵr diogel i'r gorllewin o'r Smalls gyda pharth gwahanu traffig. |

**Nodweddion Allweddol**

- Ardal eang o for, dyfnder o 100m ar wely môr tywod graeanog a thywod gyda gwasgiant tonnau isel.
- Mae nifer cymedrol o longddrylliadau yn yr ardal.
- Mae rhan fechan yn SAC Morol Sir Benfro.
- Defnyddir yr ardal gan longau masnachol gyda pharth gwahanu traffig i'r gorllewin o'r Smalls, ar gyfer fferïau a physgota.
- Byddai tir yn amlwg iawn i'r dwyrain ac yn ffurfio rhan o'r olygfa heb ei difetha ar y gorwel o arfordir y gorllewin, yn cynnwys o Lwybr Arfordir Sir Benfro.
- Môr agored gyda chymeriad morol, syml, cyson, ac unedig heb ei ddifetha ar raddfa fawr ac ymdeimlad arwyddocaol o le agored, llonyddwch, pellenigrwydd ac amlygiad.
- Penderfynir ar nodweddion yr ardal yn gyfan gwbl bron gan rymoedd naturiol y môr, trwy ymchwydd a thonnau, a gwynt.

| Dylanwadau Ffisegol |
| --- |
| Mae hwn yn barth dŵr dwfn iawn (>100m) gyda gwely môr sy'n goleddu'n raddol GD-DG (<1°) ar ran orllewinol yr ardal astudiaeth, yn ymestyn i'r gorllewin o 20km oddi ar Ynys Dewi i tua 46km. Mae gwely môr graeanog sy'n ymestyn i'r gogledd o Aberdaugleddau i mewn i Fae Ceredigion yn cael ei amnewid tua'r de gan dywod mwy ffein ac yna tywod, sy'n dod ar draws o Gaerfyrddin. Mae gan yr ardal wasgiant tonnau isel.<br><br>Mae'r creigwely alltraeth o dan waddodion gwely môr yn cynnwys cerrig llaid Mesozoic (Permian-Jurassic), tywodfeini a chalchfeini yn y de, wedi'u gorchuddio gan gerrig llaid Cenozoic (Palaeogene-Neogene), tywodfeini a lignit yn y gogledd. Torrir y creigwely gan namau gogledd dwyrain-de orllewin.<br><br>Mae cwr canol dwyreiniol yr ardal yn rhan o SAC Morol Sir Benfro. |
| **Dylanwadau Diwylliannol** |
| Mae'r ardal hon yn ffurfio rhan o'r llwybr dŵr dwfn lle mae Mor Hafren yn ymuno â Mor Iwerddon- fel rhan o forwedd masnach yr arfordir, a hefyd morwedd dyfroedd cartref Prydain a gogledd Ewrop yn ogystal â masnach dŵr dwfn byd eang. Mae stori ddiwylliannol yr ardal yn dod o'i chysylltiadau â masnach forol, rhyfela ac ymfudo, ac o hyd gyda rôl Sir Benfro gyda hedfan, yn enwedig adeg y rhyfel.<br><br>Mae yna nifer o longddrylliadau. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai a gollwyd yn y rhyfel - y Wilson, sgwner o Iwerddon a suddwyd gan fad U (1918), bad U, a hyrddiwyd gan U 84 (1918), Empire Frost a gollwyd mewn cyrch awyr (1941), Beemsterdijk (1941) a'r Churchill (1944). Mae colledion mwy diweddar yn cynnwys y Cawsand Bay (1984), Solitude (2001) a'r Arca, y dreill-long a suddodd (2007).<br><br>Mae llwybr y fferi rhwng Doc Penfro a Rosslare yn croesi'r ardal. Mae yna ardal gwahanu traffig llongau masnach gogledd/de i'r gorllewin o'r Smalls. Mae yna lwybr ar gyfer llongau pleser yn croesi'r ardal ac yn cysylltu Cymru ac Iwerddon ac y mae yna fordeithio modur.<br><br>Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys gwichiad moch, cimwch a photio crancod, leinio drifft i'r de, treillio alltraeth a threillio dwrgwn ysgafn gyda'r glannau.<br><br>Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy. Mae'n ardal gyfyngedig yn y lleoliad hwn. Gellir gwneud ceisiadu yn y dyfodol. |
| **Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol** |
| Ni fu ymweliad â'r ardal hon. Mae ym mannau allanol yr ardal astudiaeth o leiaf 20km i'r gorllewin o Ynys Dewi a'r disgwyl byddai mai dim ond bryniau uchaf megis Carn Llundain neu Garn Llidi fyddai'n amlwg fel llinell sengl ddimensiynol ar y gorwel mewn gwelededd da. Byddai'r rhain yn diflannu islaw'r gorwel ym mannau mwyaf allanol yr ardal.<br><br>Mae gan y môr gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa fawr ac ymdeimlad arbennig o fod yn agored, yn bellennig ac amlwg. Penderfynir ar ei nodweddion yn llwyr gan rymoedd naturiol y môr, trwy ymchwydd a thonnau, a gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd o'r de orllewin ac mewn tywydd gwael mae'r môr yn gallu bod yn fygythiol. Mae tebygrwydd cryf o lonyddwch ac ymdeimlad o ddiffeithwch a phellenigrwydd yn y môr agored hwn.<br><br>Bydd nifer y llongau pleser yn brin, ond fe welir ambell long fasnach yn defnyddio'r llwybr morol i'r gorllewin o'r Smalls. Bydd y goleudy i'r dwyrain yn amlwg iawn yn y nos. |
| **Buddion diwylliannol a gwasanaethau** |
| Mae'r ardal yn cyfrannu'n helaeth tuag at wasanaethau hamdden ac adloniadol ar lun adloniant morol, i dreftadaeth naturiol ar lun ardal o fôr morol heb ei ddifetha sydd i'w weld o'r pellter o arfordiroedd sensitif y Parc Cenedlaethol, ac i wasanaethau ysbrydol mewn perthynas ag ymdeimlad o ddiffeithwch a chyswllt â byd natur. |

## Rhesymau Dros Newid

**Crynodeb**

Rhesymau cyfyng dros newid mewn dyfroedd dyfnion.

Gall caniatáu trwyddedau olew a nwy arwain at bwysau i ddatblygu yn y dyfodol.

Mae'r defnydd gan danceri yn cael effeithiau croes allai gynyddu gyda chynnydd yn y traffig e.e. LNG

**Rhesymau allweddol dros newid**

| **Rhinweddau Arbennig** | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol- masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysblander yr arfordir | | | | | | | |
| Ynysoedd | | | | | | | |
| Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | | | | | | |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Archaeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| Mynediad i'r Parc | | | | | | | |
| Lle i Anadlu | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig | | | | | |

## Sensitifeddau allweddol

Mae rhan fechan iawn yn SAC Morol Sir Benfro.

Mae'r ardal yn ffurfio rhan o'r olygfa heb ei difetha ar y gorwel o'r arfordir gorllewinol, yn cynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro.

Ardal môr agored gyda chymeriad morol syml, cyson ac unedig heb ei ddifetha ar raddfa fawr ac ymdeimlad arwyddocaol o natur agored, llonyddwch a phellenigrwydd.

Diffyg cyffredin o lygredd golau.

Presenoldeb llongau masnachol gyda pharth gwahanu

Presenoldeb goleudy Smalls i'r gorllewin.